Darparu ai peidio

Dyfodol elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus

COMISIWN ELUSENNAU

Y Comisiwn Elusennau yw'r rheolydd annibynnol ar gyfer gweithgaredd elusennol. Mae hwn yn un o gyfres o adroddiadau sy'n cyflwyno'n profiad gwaith achos, sy'n cael ei ategu gan ymchwil ychwanegol. Pwrpas y gyfres yw helpu i wella dealltwriaeth o broblem. Mae hyn yn rhan o'r genhadaeth i helpu elusennau i gael yr effaith fwyaf posibl, i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau cyfreithiol, annog arloesedd a gwella effeithiolrwydd.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg o elusennau cofrestredig ynghylch eu rhan mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Tabl Cynnwys

Cyflwyniad 2

Canfyddiadau allweddol 3

1. Dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r arolwg 5
- 1.1 Nifer yr elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus 5
- 1.2 Incwm o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus 6
- 1.3 Y mathau o wasanaethau a ddarperir 7
- 1.4 Ardaloedd gweithredol a darparu gwasanaeth cyhoeddus 8
- 1.5 Y mathau o gytundebau cyllido 9
- 1.6 Adennill costau llawn 10
- 1.7 Nifer a hyd y cytundebau cyllid 14
- 1.8 Effaith ar annibyniaeth a rheolaeth 15
- 1.9 Sgôp yn y dyfodol i elusennau darparu gwasanaethau cyhoeddus 18

2. Rhai goblygiadau polisi 20
- 2.1 Annibyniaeth, rheolaeth a chenhadaeth elusennau 20
- 2.2 Cyllid a chynaliadwyedd 20
- 2.3 Ffurf a natur y sector 21

3. Casgliadau ac argymhellion 23

Anecs 1 – Methodoleg yr arolwg a phroffil yr elusennau a oedd yn cymryd rhan 24

Anecs 2 – Nifer yr elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus fesul band incwm 26

Anecs 3 – Gwasanaethau cyhoeddus 'eraill' a ddarperir gan elusennau 27

Anecs 4 – Mathau 'eraill' o drefniant cyllido 28

Anecs 5 – Adennill costau llawn 29

Anecs 6 – Adennill costau llawn yn ôl y math o gytundeb cyllido 30

Cyflwyniad

Erbyn hyn, yn fwy nag erioed o'r blaen, gwahoddir i elusennau darparu gwasanaethau cyhoeddus. Heddiw maen nhw'n wynebu nifer fawr o ddewisiadau, a gallai pob un effeithio ar ddarparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Yn ystod haf 2006 cynhaliodd y Comisiwn Elusennau arolwg o'r holl elusennau cofrestredig er mwyn cael rhywfaint o wybodaeth sylfaenol ynghylch faint o wasanaethau cyhoeddus maent yn ei ddarparu, effaith hynny ar eu gweithgareddau, eu cyllid a'u rheolaeth, a faint o'r math hwn o weithgaredd a ellir ei ddarparu yn y dyfodol.

Cwblhaodd cyfanswm o 3,800 o elusennau yr arolwg, sy'n cynrychioli croes doriad eang o Gofrestr elusennau'r Comisiwn o ran incwm a meysydd gweithredol. Dyma'r arolwg fwyaf erioed ar y pwnc hyd yn hyn.

Hoffwn ddiolch i'r Cyfeirlyfr Newid Cymdeithasol a gynhaliodd yr arolwg ar ran y Comisiwn.

Canfyddiadau allweddol

Ymysg yr ymatebwyr i'r arolwg:

1. Roedd dros 60% o'r elusennau gydag incwm o fwy na £500,000 yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd.
2. Dim ond 14% o'r elusennau nad ydynt yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd oedd yn ystyried gwneud hynny yn y flwyddyn nesaf. Mae canlyniadau'r arolwg hefyd yn dangos fod rhwystrau i dorri i mewn i'r farchnad i elusennau llai a rhai lleol.
3. Roedd traean o'r elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn cael 80% neu fwy o'u hincwm o'r ffynhonnell yma. Mae'r ffigwr yn codi i bron 67% ar gyfer elusennau gydag incwm o fwy na £10 miliwn.
4. Mae bron iawn draean o'r holl wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu gan elusennau ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol. Ond dangosodd yr arolwg hefyd fod amrywiaeth eang yn y math o wasanaethau a ddarperir.
5. Y trefniant cyllido mwyaf cyffredin yw cyfuniad o grantiau, cytundebau a chytundebau lefel gwasanaeth. Mae 37% o elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyllido yn y modd yma.
6. Mae mwy na ddwy ran o dair o'r holl gytundebau cyllido ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus am un flwyddyn yn unig.
7. O'r elusennau a ymatebodd i'n harolwg:
    - Dim ond 12% o'r elusennau'n darparu gwasanaethau cyhoeddus oedd yn gallu adrodd eu bod yn gallu adennill y costau'n llawn ym mhob achos.
    - Dywedodd 37% eu bod yn gallu adennill y costau'n llawn mewn rhai neu yn y rhan fwyaf o achosion.
    - Adroddodd 43% nad oeddynt yn gallu adennill y costau'n llawn ar gyfer unrhyw un o'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

8. Mae elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn llawer llai tebygol o gytuno fod:
    - eu gweithgareddau elusennol yn cael eu penderfynu gan eu cenhadaeth yn hytrach na chan gyfleoedd i gael cyllid;
    - eu bod yn rhydd i gymryd penderfyniadau heb bwysau i gydymffurfio â dymuniadau'r cyllidwyr;
    - eu hymddiriedolwyr bob amser yn cymryd rhan yn y penderfyniadau ynghylch pa weithgareddau neu brosiectau i'w cynnal.
9. Dim ond 26% o'r elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus a gytunodd eu bod yn rhydd i gymryd penderfyniadau heb bwysau i gydymffurfio â dymuniadau'r cyllidwyr.

Mae'r canfyddiadau'n codi cwestiynau pwysig ynghylch swyddogaeth elusennau yn y dyfodol a'u rhan mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Maen nhw hefyd yn codi materion i'r elusennau eu hystyried wrth drafod eu cyfeiriad yn y dyfodol, gan gynnwys eu:

- annibyniaeth, rheolaeth a chenhadaeth;
- cyllid; a
- chynaliadwyedd.

Yr un pryd a chyhoeddi'r adroddiad hwn, rydym hefyd yn cyhoeddi canllaw newydd *Elusennau a Darparu Gwasanaeth Cyhoeddus: Cyflwyniad a throsolwg* (CC37). Mae'r canllaw'n berthnasol i bob elusen sydd naill ai'n ystyried neu sydd eisoes yn cymryd rhan mewn darparu gwasanaeth cyhoeddus.

Byddwn hefyd yn symud y gwaith yn ei flaen gydag elusennau, cyrff ymbarél a phroffesiynol ac adrannau'r llywodraeth. Mae'r gwaith yn cynnwys:

- deall yn iawn y peryglon a'r manteision i elusennau, eu buddiolwyr a'r sector cyfan;
- gwella dealltwriaeth o ddyletswyddau cyfreithiol elusennau mewn perthynas â darparu gwasanaeth cyhoeddus; a
- hyrwyddo ac annog ymarfer da ymysg yr elusennau a chyllidwyr wrth gyllido darparu gwasanaeth cyhoeddus.

1. Dadansoddiad manwl o ganlyniadau'r arolwg

1.1 Y nifer o elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus

Gofynnwyd i'r elusennau a oeddynt yn darparu gwasanaethau i, neu ar ran, awdurdod lleol.

Er bod dadansoddiad rhagarweiniol o ganlyniadau'r arolwg yn dangos fod 30% o ymatebwyr yr arolwg yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, dengys dadansoddiad pellach fod gwahaniaethau mawr yn y canrannau o ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn darparu gwasanaethau cyhoeddus pan ystyrid y ffigyrau'n yn ôl band incwm. Er enghraifft, dangosodd y canlyniadau mai dim ond 8% o'r elusennau'n a ymatebodd i'r arolwg ac oedd ag incwm yn is na £10,000 oedd yn dweud eu bod yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, **tra bo canran llawer uwch, 62% o elusennau gydag incwm yn fwy na £500,000, yn dweud eu bod yn gwneud hynny**. Mae'r berthynas hyn, hy elusennau yn y bandiau incwm uwch yn llawer tebycach o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cael ei adlewyrchu yn y graff isod. Ni yw'n gromlin lyfn; mae cynnydd serth yn y canran o elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus rhwng y bandiau £10,000 - £100,000 a £100,000 - £250,000.

Pe dadansoddid yr ymatebion fesul band incwm a'r canran o elusennau ym mhob un o'r bandiau hyn (gweler anecs 1), byddai'r ffigyrau'n awgrymu fod tua 20% o'r holl elusennau'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Felly, er nad ydym yn gallu casglu'n uniongyrchol o ganfyddiadau'r arolwg hwn yn unig y canran o elusennau ar draws y sector sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, mae'n bosibl, o ystyried y ddau ddull y gellid eu defnyddio, awgrymu fod y ffigwr rywle rhwng 20% a 30%.

Canran o eluennau'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn ôl band incwm



1.2 Incwm o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus

Gofynnwyd i'r elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus pa ganran o'u hincwm oedd yn dod o ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Roedd ychydig dros **draean o'r elusennau (34%) sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn cael 80% o'u hincwm o wneud hynny**, sy'n awgrymu eu bod yn ddibynnol iawn ar y ffynhonnell yma o gyllid. Ar y llaw arall, roedd bron i chwarter (23%) o elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn cael llai na 20% o'u cyllid ohono, gan awgrymu polareiddiad o fewn y sector rhwng yr elusennau sy'n dibynnu'n llwyr neu'n bennaf ar ddarparu gwasanaeth cyhoeddus am eu cyllid a'r rhai sy'n dibynnu'n rhannol yn unig ar y ffynhonnell yma o gyllid.

Cyfran yr incwm blynyddol sy'n dod o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus



Daw'r polareiddiad yn amlycach pan rennir ymatebion yr elusennau yn ôl incwm. Dengys canlyniadau'r arolwg fod yr elusennau mwy yn debycach o gael y canran uchaf o'u hincwm o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. **Roedd bron i 67% o elusennau gydag incwm blynyddol o fwy na £10 miliwn ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cael 80% neu fwy o'u hincwm yn y modd yna**. I gyferbynnu, roedd 46% o elusennau sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus ac sydd ag incwm yn is na £10,000 yn cael llai na 20% o'u hincwm yn y ffordd yna.

Cyfran o incwm sy'n dod o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn ôl band incwm

	Llai na £10,000 %	£10,000 - £100,000 %	£100,000 - £250,000 %	£250,000 - £500,000 %	£500,000 - £1 miliwn %	£1 miliwn - £10 miliwn %	Mwy na £10 miliwn %
Ddim yn gwybod	11	8	6	2	3	7	5
0 - 19%	46	32	22	12	17	15	10
20 - 39%	8	15	19	20	13	18	10
40 - 59%	5	8	13	15	10	7	0
60 - 79%	5	7	11	15	16	15	10
80 - 100%	25	30	29	36	41	37	67
Cyfanswm	**100**	**100**	**100**	**100**	**100**	**100**	**100**

Mae'r ffaith fod elusennau mwy yn debycach o fod yn ddibynnol ar incwm o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus yn arwyddocaol. Er bod llai o'r elusennau hyn o ran nifer, gyda'i gilydd maent yn derbyn llawer o arian. Er enghraifft, mae'r arolwg yn nodi fod £140 miliwn o gyllid y llywodraeth yn mynd ar hyn o bryd i 14 elusen sy'n cael 80% neu fwy o'u hincwm o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus.

1.3 Y mathau o wasanaethau a ddarperir

Gofynnwyd i'r elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus pa fath o wasanaethau maen nhw'n eu darparu[1]. Mae'r canlyniadau'n dangos fod llawer o elusennau yn darparu mewn meysydd gwasanaeth penodol. Er enghraifft, mae'r siart cylch yn dangos fod **darparu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfrif am bron i draean (31%) o'r holl wasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan elusennau**.

Yr ail gategori mwyaf o wasanaethau a ddarperir gan elusennau yw'r rhai ynghylch addysg[2] (15%). Dilynir hyn gan wasanaethau plant (14%).

Mae'r clystyrau hyn o weithgaredd yn arwyddocaol gan eu bod yn codi rhai materion rheolaethol pwysig. Er enghraifft, mae elusennau sy'n darparu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn debyg o gael eu rheoli gan gyrff megis y Comisiwn dros Arolygu Gofal Cymdeithasol neu'r Comisiwn Gofal Iechyd, gan godi'r posibilrwydd o orgyffwrdd rheolaethol.

Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos fod ychydig llai na hanner (46%) yr elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn darparu gwasanaethau mewn mwy nag un categori. Yn ddiddorol, yr elusennau gydag incwm o rhwng £10,000 a £100,000 yw'r rhai mwyaf tebygol o ddarparu gwasanaethau mewn mwy nag un categori. Er enghraifft, mae ymatebion i'r arolwg yn dangos fod elusennau'n darparu'r gwasanaethau canlynol ar y cyd - gwasanaethau addysg a chynghori, gwasanaethau tai ac amgylcheddol ac (fel y nodwyd o'r blaen) gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Enghraifft o elusen o'r fath, efallai, fyddai canolfan yn darparu 'siop un stop' ar gyfer grŵp neu gymuned benodol o fuddiolwr.

Dewisodd 11% o ymatebwyr y categori 'arall' o dan y mathau o wasanaethau a ddarperir. Yr ymatebion mwyaf cyffredin yn y categori hwn oedd cludiant, amgueddfeydd a threftadaeth, cwnsela a chefnogi'r celfyddydau. **Mae ymatebion i'r arolwg yn dangos amrywiaeth y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan elusennau** (gweler Anecs 3).

1 Gallai elusennau ddewis mwy nag un math o wasanaeth ee gallai elusen ddarparu gwasanaeth ym meysydd tai ac amgylchedd.
2 Mae hwn yn cynnwys addysg oedolion a phlant.

Mathau o wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu gan elusennau



Sail: nifer y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan elusennau sy'n cymryd rhan yn yr arolwg, 2637

1.4 Ardaloedd gweithredol a darparu gwasanaeth cyhoeddus

Gofynnwyd i'r holl elusennau a oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg a oeddynt yn gweithredu o fewn ardal leol megis sir neu ddinas, ar draws mwy nag un sir, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol?

Roedd 75% o elusennau sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus yn gwneud hynny'n lleol (ee o fewn un sir neu ddinas) neu'n rhanbarthol (ar draws mwy nag un sir). Mae hyn yn amlygu fod y mwyafrif o elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn debygol o fod yn contractio gyda chomisiynwyr gwasanaeth cyhoeddus lleol megis awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau gofal cychwynnol. Mae'n ddiddorol nodi fod canran uwch o elusennau'n gweithredu ar lefel ranbarthol (ar draws mwy nag un sir) yn darparu gwasanaethau cyhoeddus na'r rhai'n gweithredu ar lefel lleol. Efallai bod hyn yn gysylltiedig â darbodion maint a rheoli risg (contractio gyda mwy nag un awdurdod cyhoeddus) ac efallai y dylid ymchwilio ymhellach.

	A yw eich elusen yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd			
	Ydyw		Na	
	Nifer	%	Nifer	%
O fewn ardal leol	779	30	1792	70
Ar draws mwy nag un sir	205	45	254	55
Yn genedlaethol neu'n rhyngwladol	158	20	615	80
Cyfanswm	**1142**		**2661**	

Ond ymatebodd 80% o elusennau sy'n gweithio'n genedlaethol neu'n rhyngwladol nad oeddynt yn cymryd rhan mewn unrhyw ffurf o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus.

1.5 Y mathau o gytundebau cyllido

Gofynnwyd i'r elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus pa fath o gytundeb cyllido a oedd ganddynt ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus. Ymatebion posibl oedd grantiau, cytundebau, cytundebau lefel gwasanaeth, cymysgedd (mwy nag un), neu 'arall'.

Roedd dadansoddiad yn cadarnhau fod perthynas rhwng y mathau o gytundeb cyllido a maint yr elusen, er enghraifft, mae elusennau gydag incwm o lai na £100,000 yn debycach o gael eu cyllido gan grantiau, ond mae elusennau gydag incwm o dros £10 miliwn yn debycach o gael eu cyllido gan gytundebau (gweler y tabl isod).

Y trefniant cyllido mwyaf cyffredin ar gyfer elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus oedd cymysgedd o grantiau, cytundebau a chytundebau lefel gwasanaeth (dywedodd 37% o elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus eu bod yn cael eu cyllido yn y modd yma). Yn wrthgyferbyniol, dim ond 17% oedd yn cael eu cyllido gan gytundebau lefel gwasanaeth yn unig, 15% gan grantiau'n unig a 15% gan gytundebau'n unig.

	Mathau o gytundebau cyllido											
	Ddim yn gwybod		Grantiau		Contracts		*CLG		Cymysgedd		Arall	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Llai na £10,000	9	9	22	22	6	6	7	7	13	13	43	43
£10,000 - £100,000	18	6	76	25	23	7	59	19	66	21	67	22
£100,000 - £250,000	3	1	25	10	34	14	56	23	101	41	26	11
£250,000 - £500,000	2	1	11	6	29	15	29	15	106	56	12	6
£500,000 - £1 miliwn	0	0	17	9	43	23	27	15	90	49	7	4
£1 miliwn - £10 miliwn	1	1	15	1	21	22	11	12	43	46	3	3
Mwy na £10 miliwn	0	0	1	5	11	52	2	10	6	29	1	5
Cyfanswm	**33**	**3**	**167**	**15**	**167**	**15**	**191**	**17**	**425**	**37**	**159**	**14**

***CLG Cytundeb Lefel Gwasanaeth**

Dywedodd 43% o elusennau gydag incwm o lai na £10,000 fod ganddynt fath 'arall' o gytundeb cyllido. Mae dadansoddiad pellach yn awgrymu fod nifer o'r ymatebion yn y categori yma (er enghraifft mae 'prynu unigol' (5), 'cytundebau unwaith ac am byth' (3)) mewn gwirionedd yn gytundebau neu gytundebau lefel gwasanaeth, sy'n awgrymu dryswch o ran terminoleg cytundebau cyllido. Roedd ymatebion eraill yn awgrymu rhai trefniadau cyllido anffurfiol iawn efallai nad ydynt yn cynrychioli ymarfer da ar ran yr elusennau na'r cyllidwyr ('cytundeb anffurfiol' (6); 'cytundeb wedi dod i ben' (4); 'cytundebau/contractau llafar/ysgrifenedig gyda rhai sefydliadau').

Atebodd dros 90 o elusennau 'arall' i'r cwestiwn hwn (tua 8% o elusennau'n darparu gwasanaethau cyhoeddus) eu bod yn cael eu cyllid oddi wrth ffynonellau gwirfoddol (megis rhoddion neu godi arian) neu drwy daliadau gan fuddiolwyr ac ymddengys nad ydynt yn derbyn unrhyw gyllid statudol (gweler Anecs 4). Mae hyn yn amlygu'r anhawster o ddiffinio'r ffiniau rhwng darparu gwasanaethu cyhoeddus a gweithgaredd elusennol.

1.6 Adennill costau llawn

Gofynnwyd i elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus a yw'r cyllid maen nhw'n ei gael o'u cytundebau cyllido'n ddigon i dalu'n llawn am gost y gwasanaethau hynny (gan gynnwys costau gorbenion a chraidd) ym mhob achos, y rhan fwyaf o achosion, mewn rhai achosion, neu ddim o gwbl.

O'r elusennau'n ymateb i'n harolwg:

- **Dim ond 12% o'r elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus a adroddodd eu bod yn gallu adennill y costau'n llawn ym mhob achos.**
- **Dywedodd 37% eu bod yn gallu adennill y costau'n llawn mewn rhai neu yn y rhan fwyaf o achosion.**
- **Adroddodd 43% nad oeddynt yn gallu adennill y costau'n llawn ar gyfer unrhyw un o'r gwasanaethau y darperir ganddynt.**

A yw'r cyllid yn talu'r holl gostau?



Er bod mwy o elusennau bach a chanolig (y rhai gydag incwm o lai na £250,000) yn dweud nad oeddynt yn gallu adfer y gost yn llawn ar gyfer unrhyw un o'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu, fel mae'r graff isod yn dangos, roedd cymysgedd o'r elusennau mwyaf a'r rhai lleiaf yn dweud eu bod yn gallu adfer y gost yn llawn ym mhob achos. Mae hynny'n awgrymu mai'r elusennau gydag incwm rhwng £100,000 a £1 miliwn yw'r lleiaf tebygol o adfer y gost yn llawn. Mae'n anodd penderfynu ar y rhesymau am hyn o'r arolwg hon yn unig ond mae'n dangos maes ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

A yw'r cyllid yn talu holl gostau'r gwasanaethau a ddarperir (yn ôl band incwm)



Mae'r graff isod yn dangos ymhellach fod elusennau llai yn debycach o beidio ag adfer y gost yn llawn am unrhyw un o'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu, a bod canran uwch o'r elusennau canolig eu maint yn adrodd eu bod yn adfer y gost yn llawn mewn rhai neu yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r bwlch rhwng yr elusennau sy'n adfer y gost yn llawn bob amser a'r rhai nad ydynt yn adfer y gost yn llawn o gwbl ar ei fwyaf mewn elusennau gydag incwm rhwng £100,000 a £250,000. Dilynir hyn gan y rhai rhwng £10,000 - £100,00 a'r rhai gydag incwm o lai na £10,000.

Canran o'r costau cyllido yn ôl band incwm



Mae'r berthynas rhwng hyd y cytundeb cyllido ac adfer y gost yn llawn yn ymddangos yn gymhleth (gweler y graff isod). Mae'n arwyddocaol mai dim ond weithiau mae canran uchel o gytundebau sy'n parhau dros dair blynedd yn gallu adfer y gost yn llawn, ac nad yw canran uchel o gytundebau sy'n parhau rhwng un a dwy flynedd yn adfer y gost yn llawn.

Hyd y cytundebau sydd gan elusennau sy'n adfer y gost yn llawn – dangosir drwy ganran



Nododd canlyniadau'r arolwg hwn nad oedd cydberthynas clir rhwng y math o gytundeb cyllido (grant, cytundeb, cytundeb lefel gwasanaeth neu gymysgedd o'r mathau cyllido hyn) ac adfer y gost yn llawn. Dim ond 19% o'r elusennau a gyllidir gan gytundeb(au) a ddywedodd eu bod gallu adfer costau yn llawn ym mhob achos o gymharu ag 11% o elusennau a gyllidir gan grantiau'n unig, 17% o elusennau a gyllidir gan gytundebau lefel gwasanaeth yn unig, 11% o elusennau a gyllidir gan gymysgedd neu fwy nag un math o gytundeb gyllido, 11% o elusennau a gyllidir mewn rhyw ffordd arall a 9% o ymatebwyr nad oeddynt yn gwybod pa fath o gytundeb gyllido a oedd ganddynt. (Gweler Anecs 6)

Doedd 7% o'r holl ymatebwyr ddim yn gwybod a oeddynt yn adfer y gost yn llawn. Yr elusennau yn y rheng incwm canolig (£100,000 i £10 miliwn) oedd i'w gweld yn debycach o wybod a oeddynt wedi adfer y gost yn llawn.[3]

3 Gallai'r ffigurau hyn, fodd bynnag, fod wedi cael eu dylanwadu gan y ffordd y cynhaliwyd yr arolwg gan y gofynwyd i ymatebwyr yr elusenau gwblhau'r arolwg gyda'r wybodaeth a oedd wrth law.

1.7 Nifer a hyd y cytundebau cyllido

Holwyd yr elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ynghylch hyd eu cytundebau cyllido. Gofynnwyd i'r elusennau gofnodi'r nifer o gytundebau a oedd am gyfnod o lai na blwyddyn, hyd at ddwy flynedd, hyd at dair blynedd a mwy na thair blynedd.

Er yr ymddengys fod gan y mwyafrif o elusennau rhwng un a phum cytundeb cyllido, dangosodd y canlyniadau fod gan rai elusennau lawer mwy o gytundebau. Dangosodd ymchwiliad pellach mai'r rheswm am hynny oedd bod gan rhai elusennau gytundebau ar wahân ar gyfer pob buddiolwr unigol. Roedd gan un ymatebwr 4,000 o gytundebau blwyddyn unigol.

Mae dros ddwy ran o dair o'r holl gytundebau cyllido ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus, trwy grantiau, cytundebau neu gytundebau lefel gwasanaeth, yn parhau am un flwyddyn yn unig. Dim ond 8% sy'n parhau am hyd at 2 flynedd, 11% am hyd at 3 blynedd a 13% am fwy na 3 blynedd.

Hyd cytundebau cyllido



1.8 Effaith ar annibyniaeth a rheolaeth

Gofynnwyd i'r elusennau a oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r tri datganiad canlynol:

A) Mae ein gweithgareddau elusennol yn cael eu penderfynu gan ein cenhadaeth yn hytrach na chan gyfleoedd i gael cyllid.

B) Mae ein helusen yn rhydd i gymryd penderfyniadau heb bwysau i gydymffurfio â dymuniadau'r cyllidwyr.

C) Mae ymddiriedolwyr ein helusen yn cymryd rhan bob amser yn y penderfyniadau ynghylch pa weithgareddau neu brosiectau y bydd yr elusen yn eu cynnal.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm yr holl ymatebion:

	Mae ein gweithgareddau eluennol yn cael eu penderfynu gan ein cenhadaeth yn hytrach na chan gyfleoni gael cyllid		**Mae ein helusen yn rhydd i gymryd penderfyniadau heb bwysau oddi wrth ddymuniadau'r cyllidwyr**		**Mae ymddiriedolwyr ein helusen yn cymryd rhan bob amser wrth benderfynu ar pa weithgareddau neu brosiectau i'w cynnal**	
	Nifer	**%**	**Nifer**	**%**	**Nifer**	**%**
Ddim yn gwybod	79	2	91	2	42	1
Cytuno	2336	61	1833	48	3051	80
Cytuno gan fwyaf	1095	29	1197	31	576	15
Anhytuno gan fwyaf	146	4	330	9	82	2
Anghytuno	147	4	352	9	52	1
Cyfanswm	**3803**	**100**	**3803**	**100**	**3803**	**100**

Mae gwahaniaethau arwyddocaol rhwng ymatebion o elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus a'r rhai sydd ddim. Mae'r graff isod yn dangos y canran o elusennau a oedd yn cytuno gyda phob un o'r tri datganiad.

Canran o ymatebwyr yn cytuno gyda datganiadau A – C



Mae elusennau nad ydynt yn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn debycach o gytuno gyda phob un o'r tri datganiad nag elusennau sydd yn darparu gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn awgrymu fod elusennau sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus yn debycach o gael eu heffeithio gan 'lif cenhadaeth' neu bwysau oddi wrth gyllidwyr ac yn llai tebyg o gynnwys eu hymddiriedolwyr mewn penderfyniadau ynghylch pa weithgareddau neu brosiectau y bydd yr elusen yn eu cynnal.

Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu y gallai fod rhywfaint o achos pryder ynghylch effaith darparu gwasanaeth cyhoeddus ar annibyniaeth a rheolaeth elusennau. Er enghraifft, **dim ond 26% o'r elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus oedd yn cytuno eu bod yn rhydd i gymryd penderfyniadau heb bwysau i gydymffurfio â dymuniadau'r cyllidwyr.**

Mae dadansoddiad o'r ymatebwyr a gytunodd neu a gytunodd yn bennaf gyda phob un o'r tri datganiad yn ymddangos y fwy calonogol o ran annibyniaeth a rheolaeth yr elusen (gweler y graff isod). Fodd bynnag, roedd y canlyniadau'n dal i ddangos fod canran lai o elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn teimlo eu bod yn rhydd i gymryd penderfyniadau heb bwysau i gydymffurfio â dymuniadau'r cyllidwyr na'r elusennau nad oeddynt yn darparu gwasanaeth cyhoeddus.

Canran yn 'Cytuno' neu yn 'Cytuno gan Fwyaf' gyda phob un o'r tri sataniad



1.9 Sgôp yn y dyfodol i elusennau darparu gwasanaethau cyhoeddus

Gofynnwyd i'r elusennau nad ydynt ar hyn o bryd yn darparu gwasanaethau cyhoeddus a fyddant yn ystyried gwneud hynny yn ystod y deuddeg mis nesaf.

Dywedodd 14% o'r elusennau hynny y byddant yn ystyried gwneud hynny yn ystod y deuddeg mis nesaf. Dywedodd 21% nad oeddynt yn gwybod. Dywedodd canran cymharol uchel (64%) y byddent yn ystyried gwneud hynny o fewn y deuddeg mis nesaf.

Mae'r graff isod yn dangos dadansoddiad o'r ymatebion fesul band incwm.

Gallu a pharodrwydd i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus



	Band incwm						
	Llai na £10,000	£10,000 - £100,000	£100,000 - £250,000	£250,000 - £500,000	£500,000 - £1 miliwn	£1 miliwn - £10 miliwn	Mwy na £10 miliwn
Ddim yn darparu gwasanaethau cyhoeddus	1088	1000	230	158	118	56	11
Yn fodlon ystyried darparu gwasanaethau cyhoeddus o fewn y 12 mis nesaf	78	149	69	49	21	9	7
Ddim yn fodlon ystyried darparu gwasanaethau cyhoeddus o fewn y 12 mis nesaf	775	653	114	64	66	29	3
Ddim yn gwybod a fydden nhw'n ystyried hynny ai peidio	235	198	47	45	31	18	1

Roedd y rhan mwyaf o elusennau a ddywedodd y byddent yn ystyried darparu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y deuddeg mis yn y band incwm £10,000 i £100,000. Roedd gan dros hanner yr elusennau a ddywedodd y byddant yn ystyried darparu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y deuddeg mis nesaf incwm o lai na £100,000.

2. Rhai goblygiadau polisi

Mae nifer o oblygiadau polisi i ganfyddiadau'r arolwg. Dylai elusennau ystyried rhai'r Comisiwn Elusennau, fel eu rheolydd, rhai eraill awdurdodau cyhoeddus a chomisiynwyr gwasanaethau'r gweddill.

2.1 Annibyniaeth, rheolaeth a chenhadaeth Elusennau

Mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos fod darparu gwasanaeth cyhoeddus yn cael effaith ar annibyniaeth a rheolaeth elusennau. Byddai o bryder i'r Comisiwn petai'r canfyddiadau'n golygu fod:

- elusen yn ymgymryd â gweithgareddau neu wasanaethau y tu allan i'w hamcanion neu ei phwerau er mwyn ennill cyllid;
- awdurdod cyhoeddus yn ymarfer rheolaeth dros broses cymryd penderfyniadau elusen mewn modd sy'n rhwystro'r ymddiriedolwyr rhag gweithredu er budd diddordebau'r elusen yn unig; neu
- nad yw ymddiriedolwyr elusennau â digon o ran mewn penderfynu pa weithgareddau y dylai'r elusen eu cynnal, trwy gymryd y penderfyniadau hynny eu hunain, neu drwy osod canllawiau clir ar gyfer dirprwyo ac adrodd yn ôl ar benderfyniadau o'r fath.

2.2 Cyllid a chynaliadwyedd

Nid yw canlyniadau'r arolwg hwn yn taflu unrhyw oleuni ar y farn a fynegwyd gan nifer o elusennau fod cytundebau'n raddol gymryd lle grantiau (er bod canlyniadau'r arolwg yn dangos fod elusennau llai yn fwy tebygol o gael eu cyllido gan grantiau ac elusennau mwy gan gytundebau, ac efallai bod hynny'n effeithio ar ganfyddiad elusennau fod y dull o gyllido'n newid).

Fodd bynnag, mae'r ymatebion yn awgrymu nad yw'r cyllidwyr a'r rhai a gyllidir yn glir ynghylch y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio'r amrywiaeth o gytundebau cyllido, megis grantiau, cytundebau a chytundebau lefel gwasanaeth.

Mae rhai sefydliadau cyllido'n symud i ffwrdd o ddefnyddio'r termau megis 'grantiau' a 'chytundebau' ac yn hytrach yn disgrifio'r hyn mae'r sefydliad cyllido'n bwriadu ei gyflawni: cael (neu brynu) gwasanaeth, neu gefnogi gweithgaredd elusennol. Gorau oll pa mor glir yw hyn. Mae gwahanol drefniadau cyllido'n gosod gwahanol oblygiadau cyfreithiol ar y defnydd o asedau elusennol ac, oherwydd hyn, dylai elusennau, a'u cyllidwyr fod yn hollol glir ar ba delerau y mae'r cyllid yn cael ei ddarparu, ac ynghylch unrhyw amodau ynghlwm.

Mae cyfnod priodol yn elfen allweddol o gyllido cynaliadwy, felly gallai natur tymor byr y rhan fwyaf o'r cytundebau cyllido ar hyn o bryd (fel yr amlygodd canlyniadau'r arolwg) fod yn destun pryder. Fodd bynnag, mae gan 13% o elusennau eisoes gytundeb cyllido hwy na thair blynedd, sy'n awgrymu fod rhywfaint o ymarfer da yn datblygu y gellir ei hyrwyddo a'i ddatblygu.

Mae elusennau gyda nifer o gytundebau cyllido unigol hefyd yn cael eu dangos yng nghanlyniadau'r arolwg. Mae hynny'n codi pryderon ynghylch yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i reoli'r cytundebau hyn. Yn groes, mae rhai elusennau wedi sôn bod trefniadau o'r fath yn rhoi mwy o hyblygrwydd wrth drafod a phrisio cytundebau ar gyfer gofynion buddiolwyr unigol, ac yn eu galluogi i gyfarfod ag anghenion cymhleth neu aml anghenion yn well.

Er gwaethaf cefnogaeth y llywodraeth i'r egwyddor o adfer costau'n llawn, dengys canlyniadau'r arolwg nad yw gwasanaethau cyhoeddus yn cyllido elusennau'n llawn o bell ffordd. Mae hyn yn codi materion pwysig o ran rheolaeth elusennau: sut mae elusennau'n cyllido diffyg ar wasanaethau, sut mae hynny'n effeithio ar eu hamcanion elusennol

ehangach a pha effaith mae hynny'n ei gael ar eu cynaliadwyedd yn y tymor hirach? A yw elusennau'n sybsideiddio gwasanaethau cyhoeddus ar sail penderfyniadau'n cael eu seilio ar ddiddordebau'r buddiolwyr. Neu a ydyn nhw'n gwneud hynny'n ddamweiniol, neu oherwydd diffyg pŵer trafod? Mae hefyd yn codi'r cwestiwn llawer ehangach. Beth allai effaith y materion cyllido hyn fod ar ganfyddiad y cyhoedd o elusen dros amser?

Oni bai y telir sylw llawn i faterion cynaliadwyedd, gall y lefel o ddibyniaeth ar ddarparu gwasanaeth cyhoeddus fel ffynhonnell o incwm, yn enwedig ymysg elusennau mwy, ddod yn destun pryder.

2.3 Ffurf a natur y sector

Mae'r arolwg yn amlygu, am y tro cyntaf, mai elusennau rhanbarthol yw'r rhai mwyaf cyffredin mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus. Nid yw'r arolwg hwn yn gallu nodi'n glir y rhesymau am hynny ond efallai ei fod o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys yr ymarferion caffael presennol a llwyddiant y model rhanbarthol gydag elusennau mwy.

Gallai elusennau eraill sy'n ceisio treiddio i'r farchnad hon efelychu'r model rhanbarthol hwn a gallai hynny fod â goblygiadau o ran eu strwythurau cyfansoddiadol. Gallai hefyd arwain at ddatblygu mwy o gydweithredu rhwng elusennau lleol llai, i ffurfio consortia rhanbarthol.

Mae canlyniadau'r arolwg yn nodi fod elusennau gyda mwy o incwm yn debycach o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae llawer o sylwebwyr yn y sector yn awgrymu fod elusennau llai yn awyddus i gymryd mwy o ran mewn darparu gwasanaeth cyhoeddus ond yn wynebu rhwystrau megis diffyg gallu neu gystadleuaeth oddi wrth elusennau mwy.

Ar hyn o bryd iechyd a gofal cymdeithasol yw'r meysydd mwyaf cyffredin lle mae elusennau'n darparu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r llywodraeth wedi nodi yr hoffai weld amrywiaeth ehangach a mwy o wasanaethau'n cael eu darparu gan elusennau a sefydliadau gwirfoddol eraill. Mae nifer o adrannau'r llywodraeth yn symud y polisi hwn yn ei flaen, gan ddechrau gyda nifer dethol o feysydd, gan gynnwys, er enghraifft, gwaith gan y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol, yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Adran dros Addysg a Sgiliau a'r Adran Iechyd[4]. Yn dibynnu ar y ffynonellau cyllido gallai'r polisi hwn newid yn ddramatig ffurf gweithgaredd elusennol yn y rhain ac mewn meysydd eraill. Bydd defnyddwyr y gwasanaethau hyn, yn y dyfodol, fod yn gleientiaid i elusennau, yn hytrach nag i gyrff statudol, a fydd yn codi materion mwy cymhleth ynghylch atebolrwydd. Mae'n hanfodol fod elusennau ac awdurdodau lleol yn glir ynghylch pwy sy'n atebol am ddarparu gwasanaeth, a bod cyfrifoldeb yn cael ei sefydlu'n glir mewn trefniadau cyllido ac yn cael ei gyfleu i ddefnyddwyr gwasanaeth yn ogystal â'r cyhoedd ehangach.

Mae'n arwyddocaol nad yw 8% o elusennau sy'n dweud eu bod yn darparu gwasanaethau cyhoeddus yn derbyn dim cyllid statudol. Gallai'r ffigwr adlewyrchu gwahaniaeth barn rhwng elusennau a chyrff cyhoeddus ynghylch beth yw gwasanaeth cyhoeddus. Ond os mae'n adlewyrchu dibyniaeth ar elusennau a'r sector gwirfoddol ehangach i ddarparu gwasanaethau mae'r wladwriaeth eu hangen ond yn methu â'u fforddio, gallai hynny cael effaith ddilynol ar ganfyddiad y cyhoedd o, ac ar ymddiriedaeth mewn, elusennau.

Mae Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol yn dangos fod 38% o incwm y sector yn dod o ffynonellau statudol, ond mai dim ond 2% o wariant y llywodraeth ar ddarparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael ei dalu i'r sector elusennol. Mae Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol yn dangos hefyd y byddai dyblu gwariant y llywodraeth ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan elusennau a'r sector gwirfoddol yn effeithio'n arw ar gymeriad y sector[5]. Yn fwy cyffredinol gallai symudiad o'r fath effeithio ar sut mae'r cyhoedd yn canfod rôl elusennau. Dengys ymchwil[6] blaenorol fod dealltwriaeth y cyhoedd o rôl elusennau yn gulach na'r hyn mae'r elusennau'n ei gyflawni mewn gwirionedd. Bydd symudiad cynyddol tuag at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus yn gwneud addysgu'r cyhoedd yn dasg anoddach.

4 *Partneriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: cynllun gweithredu ar gyfer cyfranogaeth trydydd sector*; Swyddfa'r Cabinet, 2006.
5 Ann Blackmore, Pennaeth Polisi, Cyngor Cenedlaethol Sefydlliadau Gwirfoddol, yn siarad mewn Briffio San Steffan "Transforming Public Services Through Better User Engagement: Making the Most of Voluntary Sector Partnerships" (Rhagfyr 2006).
6 Ymchwil Opinion Leader ar gyfer y Comisiwn Elusennau: *Report of findings of a survey of public trust and confidence in charities* (2005).

Mae canlyniadau'r arolwg yn codi mwy o amheuon ynghylch 'gallu' elusennau yn y dyfodol i ddarparu, a'r cynaliadwyedd o ddarparu, gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n awgrymu mai'r elusennau rhanbarthol gan fwyaf yw'r rhai sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus. Gallai hynny fod o ganlyniad i bwysau'r farchnad neu oherwydd rhwystrau i gyfleoedd cyllido, yn hytrach na dewis ar ran yr elusennau. Beth bynnag yw'r achos, gall fod perygl o greu marchnad gyfyngedig lle mai dim ond yr elusennau mwy a chyda gallu penodol a fydd yn gallu cystadlu'n llwyddiannus ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Mae'r darlun cyffredinol sy'n esblygu'n cyflwyno mater allweddol mewn perthynas â darparu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol gan elusennau:

- Mae tua dwy ran o dair o'r sector yn cynnwys elusennau bach iawn (gydag incwm o £10,000 neu lai) nad ydynt yn darparu llawer o wasanaeth cyhoeddus ac, oherwydd eu maint, yn annhebygol o fod â gallu arwyddocaol i ymgymryd â chytundebau gwasanaeth cyhoeddus sylweddol.
- Mae'r elusennau mwyaf eisoes yn darparu gwasanaeth cyhoeddus sylweddol. Mae mwy na 60% o'r elusennau gydag incwm dros £500,000 yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd. Nid yw'n eglur faint yn rhagor o elusennau yn y band incwm hwn fydd eisiau darparu gwasanaeth cyhoeddus.
- Mae canlyniadau'r arolwg hefyd yn nodi mai elusennau canolig eu maint (yn enwedig y rhai gydag incwm o £10,000 - £100,000) sy'n brwydro fwyaf i gael cyllid cynaliadwy.

Mae'r llywodraeth wedi gwneud nifer o ymrwymiadau i gynyddu gallu'r sector i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, i agor y farchnad fel bod amrywiaeth ehangach o sefydliadau'n gallu cymryd rhan ac i wneud cyllid cynaliadwy y norm. O'r canfyddiadau uchod, bydd cyflawni targedau'r llywodraeth i gynyddu lefel cyfranogaeth elusennau mewn darparu gwasanaeth cyhoeddus yn dibynnu'n drwm ar weithredu'r ymrwymiadau hyn yn llwyddiannus.

3. Casgliadau ac argymhellion

Mae nifer arwyddocaol o elusennau eisoes yn cymryd rhan mewn darparu gwasanaeth cyhoeddus. Os bydd rhagor yn debyg o droi at ddarparu gwasanaeth cyhoeddus fel modd o gynnal eu cenhadaeth, mae'n hanfodol fod y materion canlynol o bryder, sy'n cael eu trafod yn aml gan y sector a'r llywodraeth ac mae tystiolaeth bellach o hynny yn yr arolwg, yn derbyn sylw:

- Elusennau'n canolbwyntio ar ddarparu eu cenhadaeth a'r perygl fod y genhadaeth yn cael ei glastwreiddio.
- Y goblygiadau i gynaliadwyedd elusennau o dan-gyllido a chyllid tymor byr.
- Y bygythiad i annibyniaeth elusennau o ddylanwad neu reolaeth cyllidwyr dros gymryd penderfyniad.
- Elusennau llai a mwy yn symud ar wahân, a'r rhai sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus a'r rhai nad ydyn nhw ddim.

Yn amlwg mae elusennau tlotach, lleol sydd eisiau cymryd rhan mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus ond ar hyn o bryd sydd heb y gallu i wneud hynny angen rhagor o gefnogaeth. Mae'r llywodraeth yn cydnabod fod angen hefyd adeiladu gallu rhannau o'r sector cyhoeddus i weithio'n ehangach mewn gwir bartneriaeth gydag elusennau a'r trydydd sector. Efallai y dymuna'r llywodraeth hefyd ystyried beth ellir ei wneud i sicrhau fod sefydliadau llai a mwy lleol yn cael cyfle priodol i adeiladu gallu. Mae angen ymchwilio, deall ac ateb yn llawn y rhwystrau a allai fod wedi'u creu gan fframweithiau presennol ar gyfer comisiynu, caffael a chontractio, cyllido a monitro gwasanaethau.

Yn olaf, rhaid ail ddweud na ddylai'r Comisiwn naill ai annog na rhwystro elusennau sy'n gwneud neu sy'n ystyried darparu gwasanaeth cyhoeddus. Ond bydd y Comisiwn yn dal i weithio gydag elusennau, gydag adrannau eraill y llywodraeth a chyda rheolwyr er mwyn sicrhau fod:

- y risgiau a'r cyfleoedd a allai godi i elusennau ac i'r sector yn cael eu hamlinellu a'u deall;
- elusennau'n ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol a sut mae'r rhain yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus;
- ymarfer da wrth gyllido darparu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei hyrwyddo a'i annog ymysg elusennau a chyllidwyr;
- meysydd o orgyffwrdd rheolaethol yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl.

Sgôp am ddadansoddi ac ymchwil pellach

Gellir dadansoddi ac ymchwilio ymhellach i ganlyniadau'r arolwg hwn, er enghraifft:

- Pam fod elusennau mewn bandiau incwm gwahanol yn gallu fod yn fwy neu lai llwyddiannus wrth gesio adfer costau'n llawn.
- Y gwahaniaethau rhwng elusennau sy'n gweithredu'n lleol, rhanbarthol a chenedlaethol mewn perthynas â darparu gwasanaeth cyhoeddus.
- A yw'r gwahaniaethau yn y lefel o ddefnydd o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus yn adlewyrchu'r dewisiadau a wnaed gan yr elusennau eu hunain neu'n rhwystrau i fynediad i'r farchnad.
- A yw'r mathau gwahanol o gytundeb cyllido yn effeithio mewn gwirionedd ar adfer costau llawn.
- Gwahaniaethau mewn cyllido rhwng gwahanol wasanaethau cyhoeddus.
- Tueddiadau tymor hirach mewn cyllido.
- Tueddiadau tymor hirach mewn gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan elusennau.

Bydd y Comisiwn yn ystyried a allai gynnal ymchwil o'r fath ei hunan, neu wneud hynny mewn partneriaeth â chyrff eraill.

Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o fentrau eraill a allai fod â rôl mewn archwilio rhai o'r materion, megis y Panel Cyflwr y Sector, a noddwyd gan Swyddfa'r Trydydd Sector a'r ymchwil sydd ar ddod gan y Comisiwn Archwilio. Gobeithiwn y bydd yr arolwg hwn o gymorth i hysbysu gwaith cyrff ymbarél y sector elusennol ac adrannau eraill y llywodraeth sy'n ystyried y materion hyn.

Anecs 1

Methodoleg yr arolwg a phroffil yr elusennau a oedd yn cymryd rhan

Gwahoddwyd i'r holl elusennau cofrestredig i gymryd rhan yn yr arolwg a gafodd ei hysbysebu yn rhifyn yr haf 2006 o *Newyddion y Comisiwn Elusennau* a hefyd trwy e-bost i ohebwyr yr elusennau cofrestredig. Cynhaliwyd yr arolwg a gwnaed y dadansoddiad cychwynnol o'r canlyniadau gan y Cyfeirlyfr Gofal Cymdeithasol. Cymerwyd rhan gan gyfanswm o 3,803 o elusennau.

Roedd yr arolwg yn cynnwys deg cwestiwn ynglŷn â chyfranogaeth yr elusennau (ai peidio) mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus, meysydd darparu gwasanaeth, ei effaith ar gyllid a rheolaeth a chynlluniau'r dyfodol ar gyfer darparu gwasanaeth cyhoeddus. Penderfynwyd ar sail cost mai ar lein yn unig y byddai'r arolwg yn cael ei gynnal ac y byddai'n cynnwys cwestiynau caeedig yn bennaf.

Mae "Gwasanaethau cyhoeddus" yn anodd eu diffinio'n fanwl ac roedd rhaid i'r ymatebwyr farnu drostynt eu hunain a oedd unrhyw rai o'u gweithgareddau'n disgyn o fewn y diffiniad a awgrymwyd: *y gwasanaethau mae awdurdodau cyhoeddus yn eu darparu fel rheol, yn aml (ond nid bob amser) o dan ddyletswydd cyfreithiol.* Awgrymwyd wyth prif gategori fel enghreifftiau (fel y nodwyd yng nghanlyniadau'r arolwg).

Wrth son am 'awdurdodau cyhoeddus' golygwn unrhyw sefydliad sy'n rhan o'r llywodraeth (gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru) ac adrannau'r llywodraeth, cynghorau sir a dosbarth, cyrff GIG ac Awdurdodau Addysg Lleol. Yn aml cyfeirir at sefydliadau o'r fath fel 'comisiynwyr', hy cyrff sy'n comisiynu gwasanaethau. Nid yw'r diffyniad o 'awdurdodau cyhoeddus' yn gwbl glir bob amser, er enghraifft mae gan rai cyrff cyhoeddus an-adrannol, yn gweithredu hyd braich o'r llywodraeth, hefyd statws elusennol oherwydd fe'u sefydlwyd at ddibenion elusennol yn unig.

Roedd yr elusennau a gymerodd rhan yn yr arolwg yn cynrychioli croes doriad eang o'r gofrestr yn ôl incwm ac ardal weithredol. Roedd canran fwy o elusennau canolig a mwy eu maint wedi cwblhau'r arolwg. Gellid disgwyl hyn gan fod rhaid i'r arolwg gael ei gwblhau ar lein.

Cymhariaeth o'r elusennau'n cymryd rhan yn yr arolwg gyda'r holl brif elusennau cofrestredig yn ôl incwmm

Cyfanswm incwm blynyddol	Holl brif elusennau cofrestredig[7]	Canran o brif elusennau cofrestredig	Ymatebwyr i 'r arolwg	Canran o ymatebwyr arolwg
O dan £10,000	95,243	56.78%	1,188	31.24%
£10,001 - £100,000	48,859	29.13%	1,309	34.42%
£100,001 - £250,000	10,220	6.09%	475	12.49%
£250,001 - £1 miliwn	8,366	4.99%	649	17.07%
£1 miliwn - £10 miliwn	4,462	2.66%	150	3.94%
£10 miliwn a throsodd	602	0.36%	32	0.84%
Cyfanswm	**167,752**	**100.00%**	**3,803**	**100.00%**

7 Mae dros 190,000 o elusennau ar y gofrestr (er mae'r union ffigwr, wrth gwrs, yn newid yn barhaus). Mae rhai o'r elusennau hyn yn cael eu gweinyddu ac yn cael eu cyfrif fel rhan o grŵp neu "brif elusen". Mae'r ffigyrau a gyhoeddir gan y Comisiwn ar gyfer y nifer o elusennau ym mhob band incwm ar 30 Mehefin 2006 yn seiliedig ar gyfrifon y prif elusennau.

Mae 68% o'r elusennau a gwblhaodd yr arolwg yn gweithredu yn lleol (ee un sir neu ddinas) 12% ar draws mwy nag un sir ac 20% yn genedlaethol neu'n rhyngwladol.

Roedd dros hanner yr elusennau a gwblhaodd yr arolwg o fewn pob band incwm hyd at £1 miliwn yn gweithredu yn lleol. Mae'r rhan fwyaf o elusennau gydag incwm dros £10 miliwn yn gweithredu'n genedlaethol neu'n rhyngwladol. Yr elusennau'n gweithredu ar draws mwy nag un sir oedd yn ffurfio'n canran isaf o'r elusennau ym mhob band incwm ar wahân i dros £10 miliwn.

Elusennau'n ymateb i'r arolwg wrth fand incwm ac ardal weithredol

	Elusennau'n gweithredu yn lleol (ee un sir neu ddinas)		Elusennau'n gweithio ar draws mwy nag un sir		Elusennau'n gweithio'n genedlaethol neu'n rhyngwladol		Cyfanswm
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	
Llai na £10,000	939	79.04%	93	7.83%	156	13.13%	1188
£10,000 - £100,000	917	70.05%	127	9.70%	265	20.24%	1309
£100,000 - £250,000	292	61.47%	68	14.32%	115	24.21%	475
£250,000 - £500,000	200	57.64%	59	17.00%	88	25.36%	347
£500,000 - £1 miliwn	156	51.66%	62	20.53%	84	27.81%	302
£1 miliwn - £10 miliwn	60	40.00%	43	28.67%	47	31.33%	150
Mwy £10 miliwn	7	21.88%	7	21.88%	18	56.25%	32
Cyfanswm	**2571**	**67.60%**	**459**	**12.07%**	**773**	**20.33%**	**3803**

Hoffem ddiolch i'r holl elusennau a gymerodd ran yn yr arolwg am eu cyfraniad i'r ymchwil hwn.

Anecs 2

Nifer o elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn ôl band incwm

	A yw'ch elusen yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar hyn o bryd?			
	Ydi		Nac ydi	
	Nifer	%	Nifer	%
Llai na £10,000	100	8	1088	92
£10,000 - £100,000	309	24	1000	76
£100,000 - £250,000	245	52	230	48
£250,000 - £500,000	189	54	158	46
£500,000 - £1 miliwn	184	61	118	39
£1 miliwn - £10 miliwn	94	63	56	37
Mwy na £10 miliwn	21	66	11	34
Cyfanswm	**1142**		**2661**	

Anecs 3

Gwasanaethau cyhoeddus 'eraill' a ddarperir gan elusennau

1: Ymatebion y gallai cael eu hail ddosbarthu o fewn y 'prif' gategorïau

Math o wasanaeth	Nifer o ymatebwyr
Hamdden	20
Gofal cymdeithasol	34
Iechyd	36
Amgylcheddol	1
Tai	10
Addysg	20
Gwasanaethau plant	29
Cyngor	19
Cyfanswm	**169**

2. Ymatebion eraill

Math o wasanaeth	Nifer o ymatebwyr
Cludiant	16
Amgueddfeydd/llyfrgelloedd/treftadaeth	14
Cwnsela	13
Cefnogi'r Celfyddydau	12
Gwasanaethau cyflogaeth	9
Gwirfoddoli/gwirfoddolwyr Mileniwm	7
Datblygu cymunedol	6
Cefnogaeth i ddioddefwyr a thystion trosedd	5
Cefnogaeth i ddioddefwyr trais teuluol	4
Gwneud grantiau	4
Atal trosedd	3
Cynrychioli'r Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol (VCS) yn lleol	3
Cefnogaeth TG	3
Ymgynghoriaeth bywyd gwyllt/achub anifeiliaid	3
Gweinyddiaeth	2
Bâd achub	2
Lles carcharorion	2
Prosiectau gwrth dlodi	1
Gwyddoniaeth gymhwysol dŵr croyw	1
Cymorth yn ystod argyfwng mawr	1
Tir claddu	1
Sefydliad cyflogwyr	1
Diogelwch tân, cymorth cyntaf, ymladd tân	1
Rhyngffydd	1
Gorsaf bleidleisio	1
Cyfanswm	**116**

Anecs 4

Mathau 'eraill' o drefniant cyllido

Ateb	Nifer o ymatebwyr
Dim	46
Rhoddion oddi wrth aelodau/cyhoedd	13
Ffioedd	9
Gwasanaeth am ddim	9
Codi arian	8
Elusennau'n cael eu rheoli gan gyngor	6
Anfoneb	6
Cytundeb anffurfiol	6
Prynu unwaith ac am byth	5
Aelodaeth/tanysgrifiadau personol	4
Y sylfaenydd yn ei chyllido ei hunan/hunan cyllido	4
Cytundeb wedi dod i ben	4
Fel a phan fo angen	4
Cytundebau a chytundebau lefel gwasanaeth	4
Taliadau oddi wrth ddisgyblion/myfyrwyr	4
Ffioedd gosod neuaddau/rhentu ystafelloedd	3
Cytundebau unwaith ac am byth	3
Cyllid blynyddoedd cynnar	2
Llywodraeth	2
Cytundebau lleoli unigol	2
Talebion/cyllid gan y sir	2
Cyfraniad cynnal wythnosol	2
Dyraniad	1
Cyfraniad cleient	1
Cyfraniad cynnal	1
Cyllid cyfatebol a rheoli cyllidebau	1
Gorchmynion banc personol	1
Darparu cyfleusterau	1
Refeniw a grantiau	1
Cyllideb blynyddol bychan	1
Nawdd	1
Strategaeth a chynllun gweithredu	1
Cytundebau llafar/ysgrifenedig/cytundeb gyda rhai sefydliadau	1

Anecs 5

Adennill costau llawn

	A yw'r cyllid yn talu cost llawn y gwasanaethau a ddarperir?									
	Ddim yn gwybod		Ym mhob achos		Yn y rhan fwyaf o achosion		Mewn rhai achosion		Na	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Llai na £10,000	19	19	16	16	9	9	9	9	47	47
£10,000 - £100,000	37	11.97	44	14.24	43	13.92	44	14.24	141	45.63
£100,000 - £250,000	14	5.71	19	7.76	43	17.55	34	13.88	135	55.1
£250,000 - £500,000	7	3.7	17	8.99	44	23.28	48	25.4	73	38.62
£500,000 - £1 miliwn	4	2.17	22	11.96	52	28.26	43	23.37	63	34.24
£1 miliwn - £10 miliwn	4	4.26	14	14.89	24	25.53	21	22.34	31	32.98
Mwy na £10 miliwn	2	9.52	1	4.76	6	28.57	8	38.1	4	19.05
Cyfanswm	**87**	**8**	**133**	**12**	**221**	**19**	**207**	**18**	**494**	**43**

Anecs 6

Adennill costau llawn fesul math o gytundeb cyllid

		Math o gytundeb cyllido											
		Ddim yn gwybod		Grant(iau)		Cytundeb(au)		Cytundeb(au) lefel gwasanaeth		Cymysgedd/ mwy nag un		Arall	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Adennill costau llawn?	Ddim yn gwybod	17	51.52	13	7.78	5	2.99	10	5.24	12	2.82	30	18.87
	Ym mhob achos	3	9.09	19	11.38	32	19.16	33	17.28	28	6.59	18	11.32
	Yn y rhan fwyaf o achosion	3	9.09	23	13.77	37	22.16	37	19.37	110	25.88	11	6.92
	Yn rhai achosion	2	6.06	21	12.57	28	16.77	23	12.04	114	26.82	19	11.95
	Nifer	8	24.24	91	54.49	65	38.92	88	46.07	161	37.88	81	50.94
	Cyfanswm	**33**	**100**	**167**	**100**	**167**	**100**	**191**	**100**	**425**	**100**	**159**	**100**

Nodiadau

Gellir edrych ar y cyhoeddiad hwn ar wefan y Comisiwn Elusennau hefyd: www.charitycommission.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2007. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu yn gywir ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a dylid nodi teitl y cyhoeddiad.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i argraffu ar bapur sy'n dod o adnoddau cynaliadwy yn unig ac nid yw'n cynnwys unrhyw glorin.
Cyflenwyd gab Linney Group.
xxxxxx xx/2007

Crëwyd a chynhyrchwyd gan: Adran Ddylunio, Comisiwn Elusennau

Gallwch gael fersiynau print bras o'r cyhoeddiad hwn gan y Comisiwn Elusennau ar 0845 300 0218

Y Comisiwn Elusennau

Ffôn: **0845 300 0218**

Minicom: **0845 300 0219**

Trwy'r post: **Comisiwn Elusennau Uniongyrchol**
Blwch SP 1227
Lerpwl
L69 3UG

Gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**

Darparu ai peidio - Dyfodol elusennau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus. Chwefror 2007.

RS15